# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH — IONAWR/CHWEFROR 1977 — RHIF 37

# Pwy yw'r Twyllwyr?

**Yn ystod y misoedd diwethaf clywsom lawer am y rhai sydd yn byw yn fras ar gefn y wladwriaeth heb wneud diwrnod o waith. Ond tybed beth yw'r gwir am y sefyllfa hon? A wyddoch chwi mai £2 filiwn yn unig a gollir mewn taliadau lwfans diangen, ond fod twyllo'r trethi yn creu colled o £1942.6 miliwn ar amcangyfrif bob blwyddyn? A phrin y sonnir am y £600 miliwn nas telir i'r rhai sydd â hawl i'r arian a gwir angen.**

Fel sy'n arferol ar adeg o gyni economaidd mae yna ymgais i greu drwgdeimlad rhwng y diwaith a'r rhai sydd â swyddi, er mwyn tynnu sylw oddi wrth broblemau mwy difrifol, megis achosion sylfaenol diweithdra. Gwell gan rai bobol weld gostyngiad yn incwm y diwaith na chodiad yn nhâl y rhai sydd ar gyflog isel, ac anwybyddant y ffaith nad dewis yw bod yn ddiwaith ar adeg fel hon.

Er mwyn mynegi gwrthwynebiad i'r ffeithiau camarweiniol a ddadlenwyd yn ddiweddar, cynhaliwyd cyfarfod chyoeddus ym Mhontypridd nos Wener, Ionawr 21ain. Y siaradwyr oedd Neil Kinnock, Aelod Seneddol Bedwellte, Colin Palfrey, darpar ymgeisydd Plaid Cymru dros Ogledd-Orllewin Caerdydd, a Ruth Lister o "Child Poverty Action Group". Cefnogwyd y cyfarfod gan nifer o fudiadau, gan gynnwys undebau llafur, mudiadau gwleidyddol a grwpiau gwirfoddol.

Da oedd gweld y neuadd fawr yn orlawn i glywed yr anerchiadau o'r llwyfan a bwysleisiai syniad mor ddwl a pheryglus oedd hwn, a sut yr oedd angen addysgu pobl i ddiystyru'r celwyddau hyn drwy eu gwneud yn ymwybodol o'r gwir ffeithiau.

Am fanylion pellach ynglŷn â'r ymgyrch bwysig hon, cysyllter â G.M. Awbery (ffôn Caerdydd 387014).



*JOHN GWILYM JONES (Llun Cyngor Celfyddydau Cymru)*

# Teyrnged i "John Gwil"

"... Ac ar Radio Cymru yr wythnos nesaf fe fydd y Dr. John Gwilym Jones yn rhoi sgwrs ar sut i drin yr arfau". Yr arfau wrth gwrs yw geiriau. Wrth wrando ar y darllediad cefais ail-fyw rhai o oriau mwya gwerthfawr fy nghyrfa golegol. Ystyr geiriau; rhin geiriau; cysylltiadau geiriau; deffro ein hymwybyddiaeth o gyfoeth yr iaith Gymraeg a'i llenyddiaeth oedd cymwynas y darlithydd. Wrth wrando arno, a gwrando yn astud a wnawn, rhyfeddwn eto at ddyfnder ei ddiwylliant ac at ehangder ei feddwl.

Does ryfedd ei fod yn ddadansoddwr taclus. Un taclus ydyw yn ei holl ymarweddiad a'i gerddediad mor bwrpasol sionc a'i lyfrau. "Yli boi bach; deud o fel 'ma". Saunders Lewis, Shkespeare, Shaw, Pirandello, fe ddaeth y rhain yn rhan o'n hetifeddiaeth trwy gyfrwng y cwmni drama y datblygodd John Gwilym Jones o fod yn dad-yn-yr-ysbryd iddo i fod yn gynhyrchydd arno. Tyfodd Mr. Jones yntau i fod yn John Gwil. "Os mai dyna wyt ti'n ddeud yn fy nghefn i deud o yn fy wyneb i boi!" Tybiem ei fod yn falch o'r anrhydedd.

Un o lawer o anrhydeddau a ddaeth i'w ran o sawl cyfeiriad oedd hon. A feiddiwn ni gredu nad bod yn "John Gwil" yw y lleiaf Mae'n arddel yr enw yn llawer parotach na'r ddoethuriaeth haeddiannol a roedd iddo.

Edrychwch eto ar restr yr enwau a enillodd goron neu gadair Steddfod yr Urdd ddiwedd y pum degau a'r chwe degau. I nifer mawr ohonynt fe ddaeth yr anogaeth i lenydda o'r un lle yn union ag y daeth yr anogaeth i eraill ohonom i ganolbwyntio ar y gair llafar. Peth prin yw anogaeth yn y Gymru sydd ohoni ond nid yn y Groeslon. "Ardderchog boi — goedd hwnna'n wirioneddol dda". Fe fyddai'n well y tro nesaf yn sicr.

Er cystal ei ddehongliad o syniadau dramodwyr eraill y fraint fwyaf oedd perfformio ei ddramau ef ei hun. Tros y blynyddoedd y mae Chwaraewyr Coleg y Gogledd wedi cyflwyno'r perfformiadau cyntaf o "Lle Mynno'r Gwynt"; "Gwr Llonydd "; "Y Tad a'r Mab"; "Hanes Rhyw Gymro"; "Rhyfedd y'n Gwnaed"; a'r ddiweddara "Ac eto - nid myfi". Tybed? Fedrwch chi ddim anwesu'r ddeialog heb wybod mwy am y sawl a'u gweodd. Gweu teyrnged iddo yw'n nod ninnau a chwithau'n talu teyrnged trwy fod yno.

R. ALUN EVANS

## Noson yn y Sherman

*Fe gynhelir Cyfarfod Teyrnged i John Gwilym Jones yn Theatr Sherman, Caerdydd nos Sul, Chwefror 13eg am wyth o'r gloch. Mae hwn yn gyfarfod y bu llawer ohonom yn edrych ymlaen ato am fisoedd - felly gwnewch yn siwr o'ch tocyn ymlaen llaw, thag cael eich siomi. Cynhelir y cyfarfod o dan nawdd Eisteddfod yr Urdd, y Barri a'r Fro, ac fe fydd pob elw o'r cyfarfod yn mynd i gronfa'r Eisteddfod.*

## Go dda, Wynn

**Llongyfarchiadau i Wyn Innes, mab Mr. a Mrs. K. Innes, 6 Heol Wernlas, Eglwysnewydd, Caerdydd, ar gael ei ddewis i chwarae rhan 'Dennis' yn y ddrama gyfres Pobl y Cwm. Fe fydd cyfle i weld Wyn yn actio ym mhennod 5. Mae Wyn sydd yn 13 oed yn ei ail flwyddyn yn ysgol Gyfun Llanharri.**

# GOLYGYDDOL

Gyda Phwyllgor yr Eisteddfod Genedlaethol yn dal heb benderfynu'n derfynol ble'n union y lleolir yr Ŵyl yn '78 (ond gyda Phentwyn yn edrych yn go debyg erbyn hyn), maddeuer i ni am ddychwelyd at bwnc Golygyddol y rhifyn diwethaf, sef apel yn erbyn alltudio'r Brifwyl i gyrrion pellenig y Brifddinas, a cholli felly gyfle bendigedig i wneud yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn ganolbwynt i'r ddinas am un wythnos fer yn ei hanes. Yn anffodus, ymddengys fod sawl carfan gref, gan gynnwys Carafannwyr Cymru, a'r Heddlu hwythau hefyd yn erbyn lleoli'r Eisteddfod ym Mharc Pontcanna. Pam felly?

* * * *

Y broblem drafnidiaeth yw'r maen tramgwydd mwyaf, yn ôl pob tebyg. Ar adegau prysuraf y dydd yn ystod wythnos yr Eisteddfod, mae'r heddlu'n amcangyfrif fod yn rhaid gollwng rhyw 5,000 o geir yr awr allan o feysydd parcio'r Eisteddfod i'r priffyrdd. Gyda'r sefyllfa bresennol ym Mhontcanna, gyda dim ond un brif allanfa i'r ffordd fawr o'r parc, byddai hyn yn gwbl amhosib — heb son am y tagfeydd dychrynllyd a achosid drwy ychwanegu miloedd ar filoedd o geir at drafnidiaeth bresennol y brifddinas yn yr oriau brys. Hunllefus, a dweud y lleiaf!

Ond gan dderbyn hynny i gyd, tybed a gawn ni awgrymu fod meddwl fel hyn yn golygu ein bod ni'n edrych ar y broblem o'r pen anghywir: ein bod ni'n caniatau i'r ceir reoli lleoliad yr Eisteddfod, yn hytrach na derbyn mai lleoliad yr Eisteddfod ddylai benderfynu beth sydd i'w wneud â'r ceir.

Hoffem felly gynnig nifer o ffactorau i'w hystyried parthed lleoli'r Eisteddfod ym Mhontcanna. Yn gyntaf, bydd y rhan fwyaf o Eisteddfodwyr Caerdydd yn aros yn y ddinas ei hun; prin y gwelir yma'r broblem lety sy'n gorfodi pobl i aros ddeg neu bymtheg milltir i ffwrdd oddi wrth dref yr Eisteddfod, fel sy'n digwydd pan gynhelir yr Ŵyl yn un o'r trefi llai. Pe cynhelid yr Eisteddfod ym Mhontcanna, byddai'n hwylus i lawer o bobl i gerdded neu i ddal bws lleol i Faes yr Eisteddfod, heb orfod defnyddio car o gwbl.

Yn eilbeth, mae lle ym Mhontcanna ar gyfer rhai meysydd parcio bach mewn achosion arbennig: ar gyfer bysiau (corau, plant ysgol ac ati), ceir pobl fethiedig, a cheir a loriau swyddogion a gweithwyr ar faes yr Eisteddfod. Yn olaf, gellid trefnu fod meysydd parcio mawr, ar gyfer pawb arall fydd yn dod i'r Eisteddfod mewn car, allan yn y maestrefi, a threfnu gwasanaethau bws rheolaidd o'r meysydd parcio hyn yn syth i Faes yr Eisteddfod. Gallai trenau chwarae eu rhan hefyd; ar gyrrion gogleddol y ddinas, gellid trefnu meysydd parcio o fewn cyrraedd i orsafoedd rheilffordd megis Radur, yr Eglwys Newydd, Llanishen ac ati, lle mae gwasanaethau rheolaidd i ganol y ddinas yn bod eisoes.

Dim ond rhyw awgrymiadau digon bras yw'r rhain, ond gobeithio fod rhywbeth ynddynt a all wneud i Bwyllgor yr Eisteddfod ail-ystyried Pontcanna, o leiaf, yn hytrach na gwrthod y safle heb ddim trafodaeth bellach.

Fe fydd y rhifyn nesaf o'r *Dinesydd* yn ymddangos ar Fawrth 11eg. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn CHWEFROR 28 fan bella, os gwelwch yn dda. Danfoner at: Golyngdd *Y Dinesydd*, 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd.

# LLYTHYRON

## Y Cymry ar Wasgar

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Gair bach o werthfawrogiad i'r rhieni hynny sy'n ymdrafferthu i ddiogelu iaith eu plant a hwythau ymhell o Gymru ynghanol cymdeithas Seisnig a heb obaith am addysg Gymraeg i'w plant. Rhyw un mlynedd ar ddeg yn ôl, symudodd Havard ac Ann Gregory a'u teulu ifanc o Gaerdydd i Redhill, Surrey lle cawsai Havard swydd fel swyddog cysylltiadau i gwmni masnachol. Erbyn hyn mae Sion yn 18 oed, Marc ei frawd yn 16 oed a Philip yr ieuengaf yn 12. Yr haf diwethaf (1976) eisteddfodd Sion arholiad Lefel "A" yn y Gymraeg yn ysgol ramadeg Reigate, a'r un pryd Marc Lefel "O" yn y Gymraeg yn ei ysgol yntau, Coleg Whitgift, Croydon, y ddau yn llwyddiannus.*

*Cymraeg yw iaith aelwyd y teulu yn "Glyn Rhosyn", Nutfield, Redhill, a hoff wyliau'r plant bob blwyddyn o'r dechrau yw gwersylloedd yr Urdd yn Llangrannog a Glanllyn.*

*Mae Sion â'i fryd ar fynd i Goleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth ac yn gobeithio medru aros yn Neuadd Gymraeg Pantycelyn.*

*Anfonwn ein cofion annwyl o Gaerdydd at y teulu teyrngar hwn sy'n cadw Cymru'n fyw ar dir y Saeson!*

*E.J.D.*
*Penarth.*

---

*ANNWYL OLYGYDD,*

*Bu i ffrind i mi o Heathwood Road, Caerdydd anfon copi o'r 'Dinesydd' Tachwedd 1976. Cyhoeddiad diddorol iawn - yr oeddwn yn falch o weld y llun ar tud. 6.*

*Fel athro ffeirio oeddwn yn Caerdydd drwy'r flwyddyn ysgol 1952-53, yn ysgol Canton i fechgyn, trwy garedigrwydd Mr. Robert Presswood, yr hwn oedd yn gyfarwyddwr addysg pryd hynny.*

*Cefais groeso cynhes yn yr ysgol Gymraeg ac yr oedd yn bleser cael siarad â'r myfyrwyr yn yr iaith Gymraeg. Mae y llun yn fy adgoffa am ddyddiau hapus y flwyddyn hono yn Caerdydd.*

*Llwyddiant i chwi am y flwyddyn 1977.*

*Yr eiddoch,*

*PHILLIP JONES'*
*Oakley, California,*
*U.D.A.*

## Clod Dwbl

Os 'i gneud hi o gwbl, 'i gneud hi'n go iawn — dyna arwyddair Megan a Gwen Davies o Gaerdydd sydd newydd gael eu derbyn i astudio Hanes yn Rhydychen y flwyddyn nesa. Efeilliaid yw Gwen a Megan, ac er gorfod ymwahanu am y tro cyntaf yn eu bywyd, fyddan nhw ddim ymhell iawn oddi wrth ei gilydd — Megan yng Ngholeg y Santes Anne a Gwen yng Ngholeg y Santes Hilda. Mae'r ddwy yn ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ar hyn o bryd, ac yn ferched i'r Parch. Dafydd G. Davies, prifathro Coleg y Bedyddwyr yn Richmond Road.

## Aros am Ateb

**Pob hwyl i Mrs Gwyneth Morgan, Radur yn ei brwydr am gael ffurflen asesiad treth incwm yn Gymraeg. Bu'n rhaid iddi hi ymddangos yn y Llys Sirol ddechrau mis Ionawr i ddadlau ei hachos ger bron Barnwr, ond ni fydd hwnnw yn rhoi ei ddyfarniad ar yr achos hyd wythnos gyntaf mis Chwefror. Diolch i Mrs Morgan am ei chadernid dibendraw — mae hi'n esiampl ac yn ysbrydoliaeth i ni i gyd.**

---

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

# Sicrhau parhad Ysgol Rhydfelen

Mae nifer o athrawon Ysgol Gyfun Rhydfelen wedi esgor ar gynllun i sicrhau dyfodol yr ysgol am y blynyddoedd sydd i ddod. Gellir gweld llwyddiant y cynllun ym mhersonau bychain Cerian Dafydd, merch Dafydd Pretty, yr athro Hanes, a'i wraig Lynwen; Ffion Esyllt, merch Alan a Luned Roberts (neu Bej a Pŷs, rhag ofn fod pawb yn dal yn y niwl); a Llwyd, mab Arwel a Non Owen.

Croeso mawr i'r newydd-ddyfodiaid a llongyfarchiadau gwresog i'r rhieni llawen. Gydag ymroddiad fel hyn, ni all Ysgol Rhydfelen ond dal i fynd ymlaen o nerth i nerth!

# At bob Tenor

Mae'r ymateb hyd yn hyn i gôr yr eisteddfod wedi bod yn galonogol dros ben, ond fel arfer, mae'r merched wedi ymateb ychydig yn well na'r dynion, ac ymhlith y dynion, y tenoriaid sydd ychydig yn brin. Nid yw'n rhy hwyr i ymuno, ac os ydych am wneud hynny, dewch i'r ymarferion nesaf - Yn y Tabernacl nos Sul ac yn ysgol Bryn-taf (Y Parêd) ar nos Fercher. Mr. Alun Guy yw'r arweinydd.

# LLWYDDIANT

Da oedd clywed fod Michael Jeffreys, 49 Heathwood Rd., Caerdydd wedi bod yn llwyddiannus yn arholiadau cerdd yr *Associated Board*, Llundain y mis hwn. Pasiodd ei arholiad, sef Piano Gradd I, ag Anrhydedd. Mab y Capten a Mrs. Jeffreys yw Michael ac y mae'n ddisgybl yn ysgol Llanharri. Paratowyd ef ar gyfer yr arholiad gan Mrs. D. T. Guy, Caerdydd.

## CALENDR CHWEFROR-MAWRTH

**CHWEFROR**

1 Ffilmiau'r Nant YNYS Y TRYSOR a chartwnau Cymraeg eraill i blant. Canolfan yr Urdd, 6.00p.m. Mynediad: 20c.
Merched y Wawr, Caerdydd PLANHIGION GALL PAWB EU TYFU Richard Bowering, Canglfan yr Urdd, 7.30p.m.

4 Ffilmiau'r Nant GWAED AR Y SER a ffilmiau Cymraeg eraill. Canolfan yr Urdd, 7.30p.m. Mynediad: 40c.
Cymdeithas y Cymmrodorion NOSON GERDDOROL A CHYMDEITHASOL o dan ofal Arwel Hughes. Festri'r Tabernacl.

8 Adran Efrydiau Allanol RHAI GWISGOEDD O'R CASGLIAD Dr Ilid Anthony Yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan 10.00a.m.–12.00.

9 Cymdeithas Wyddonol Caerdydd a'r Cylch DYSGU BOTANEG — TREFN MEWN CYMHLETHDOD Anne Lewis, Rhydfelen. Adeilad Newydd, Yr Athrofa 7.15p.m.
Cymdeithas Heol y Crwys EISTEDDFOD FO A FE 7.30p.m.
Clwb Tŷ'r Cymry. Noson i'r Vled Dosbarth Y STAFELL DDIRGEL Marion Eames.
Cymdeithas Lenyddol Caerdydd BOIS Y CILIE T. Llew Jones ORIEL, Heol Siarl 7.30p.m.

13 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Y Barri a'r Fro RHAGLEN DEYRNGED I JOHN GWILYM JONES yn cynnwys perfformiad o UN BRIODAS Theatr Sherman 8.00p.m.

21-3 Cwmni Theatr Cymru GWREICHION Eigra Lewis Roberts Arena, Theatr Sherman 8.00p.m.

22 Adran Efrydiau Allanol Y DIWYDIANT GWLAN J. Geraint Jenkins Amgueddfa Werin, Sain Ffagan 10.00a.m.-12.00.

25 Cymdeithas y Cymrodorion CINIO GWYL DEWI Gwesty'r Parc. Gŵr Gwadd: Mr Llewelyn Price (Y Fridfa Blanhigion, Aberystwyth).

27 Clwb Tŷ'r Cymry CYMANFA GANU GŴYL DEWI Capel Ebeneser 7.45p.m.

**MAWRTH**

2 Merched y Wawr, Caerdydd DATHLU GŴYL DEWI gyda'r Dysgwyr. Canolfan yr Urdd 7.30p.m.
Cymdeithas Heol y Crwys DATHLU GŴYL DEWI Gŵr Gwadd: Charles Williams 7.30p.m.

6 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Y Barri a'r Fro GWEITHIAU EBEN FARDD Guto Roberts a Meredydd Evans Theatr Sherman 8.00p.m.

7 Cymdeithas Wyddonol Caerdydd a'r Cylch "RWY'N GWELD O BELL..." Dr W.E.L. Rees, Tonteg. Adeilad Newydd, Yr Athrofa 7.15p.m.

8 Adran Efrydiau Allanol MELIN BOMPREN Eurwyn Williams Yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan 10.00a.m.-12.00.

9 Cymdeithas Lenyddol Caerdydd TRIBANNAU MORGANNWG D. Myrddin Lloyd ORIEL, Heol Siarl 7.30p.m.

14 Clwb Tŷ'r Cymry NOSON GOFFI'R DYSGWYR gyda Bill Raybould 7.30p.m.




# Dyrchafu David

Llongyfarchiadau i David Meredith ar ei benodi'n Bennaeth y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus i Gwmni Teledu Harlech yng Nghymru. Ymunodd David a'r cwmni ym 1968 a hyd at ei ddyrchafiad, ef oedd Swyddog y Wasg a Chysylltiadau Cyhoeddus i'r cwmni. Cyn iddo ymuno â Theledu Harlech, gweithiai ar staff Bwrdd Croeso Cymru, yn gyfrifol am hysbysebion a gwerthiant y Bwrdd.

Roedd profiad David yn y cyfeiriad hwnnw yn werthfawr dros ben pan ymunodd â'r criw bach brwd a oedd wedi casglu ynghyd ym 1972 i sefydlu'r *Dinesydd*. Iddo ef y rhoddwyd y gwaith holl-bwysig o gasglu hysbysebion i'r papur, a cheisio "gwerthu'r" papur i hysbysebwyr. Gan fod y papur bron yn gwbl ddibynnol ar hysbysebion bryd hynny, heb waith diwyd David, fe fyddai wedi bod yn go fain arnom.

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd ei lyfr cyntaf, sef cyfrol ar fywyd a gwaith Michelangelo; gobeithio na fydd ei swydd newydd yn golygu na chaiff hamdden i ysgrifennu tipyn mwy, ac edrychwn ymlaen at weld y gyfrol nesaf. Unwaith eto, llongyfarchiadau David, a phob hwyl gyda'r gwaith.

# I'R DYSGWYR

## *Newyddion*

*Diolch yn fawr i Hugh Map Aifor (gobeithio fod ei enw'n iawn gen i) am y llythyr diddorol a anfonodd ataf ychydig amser yn ôl. Dau brif bwynt oedd ganddo yn ei lythyr; yn gyntaf, doedd e ddim yn hoffi'r syniad o gladdu "Rydw i". Roedd e'n sylweddoli fod yna nifer o amrywiadau ar y ffurf bellach, ac y mae e'n gallu eu defnyddio i gyd — da iawn. Y pwynt roeddwn i'n ceisio ei wneud oedd fod yna rywbeth yn ddienaid neu'n "ddalekaidd" am y gair "rydyw'i". Pam roedd rhaid cyflwyno gair newydd sy mor anystwyth â hwn pan oedd ffurfiau fel "Dw i" ac ati ar gael a fyddai'n iawn i ddysgwyr hefyd. Mae'n rhy hwyr nawr, wrth gwrs, gan fod cymaint o lyfrau darllen yn eu defnyddio'n gyson, ac yn wir, mae'n syndod faint o Gymry Cymraeg naturiol sy'n defnyddio "rydw i" erbyn hyn. Yn wir, fe welais y cofi enwog hwnnw o adran garpedi siop Howells yn defnyddio "rydw i" mewn un erthygl. Felly, defnyddiwch chi "rydw i" yn ddigon hapus.*

### TIPYN O RAMADEG

*Dyma ail bwynt llythyr diddorol Hugh. "Rwy'n sylwi ar sieciau y geiriau 'Taler ... neu a enwo'. Edrychais drwy DEWCH I DDYSGU Rhan 1 a 2 a hefyd CYMRAEG CYFOES ond does dim crybwyll ynddyn nhw o'r terfynau ·ER neu ·O. Beth ydy'r terfynau yma?"*

*Wel, yr un gair ydy hwn â'r gair "SANCTEIDDIER dy enw" yng Ngweddi'r Arglwydd; hynny yw, modd Gorchymynnol Amhersonol y ferf yn mynegi deisyfiad neu ddymuniad — yn Saesneg, "Let it be paid". Y Modd Dibynnol yw "enwo" (mae'n golygu "Whosoever he MAY NAME). Mae'n bwynt diddorol nad ydy ffurfiau amhersonol cryno'r ferf yn cael eu dysgu, er eu bod nhw i'w gweld yn GRAMADEG CYMRAEG CYFOES ac, wrth gwrs, yn ELFENNAU GRAMADEG CYMRAEG; mae'n bwysig dysgu'r rhain. Yn aml iawn, bydd darlledwyr ar y radio neu'r teledu yn dwud pethau fel "Gwelwyd" (.... WAS SEEN) neu, wrth son am gyngerdd, "Cynhelir cyngerdd" (A CONCERT WILL BE HELD), felly mae'n dda gwbod am y ffurfiau hyn. Diolch am eich llythyr diddorol, Hugh — a gobeithio fy mod wedi ateb eich pwyntiau.*

### WOOLWORTH A'R IAITH

*Dyna braf oedd clywed fod Woolworth yn mynd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn eu sipau. Beth fydd "Woolworth" yn Gymraeg, tybed? Rwy'n deall fod cwmni Dunlop hefyd yn defnyddio'r Gymraeg yn awr wrth hysbysebu. Mae pethau'n gwella yn ara deg.*

### CYRSIAU

*Wel, fe fydd cwrs penwythnos arall yn Llangrannog cyn bo hir. (Mawrth 11 - 13). Beth am ddod? Os ydych am fanylion, anfonwch ata'i ar unwaith: y cyfeiriad yw 6 Ridgeway, Llysfaen.*

### SIECIAU CYMRAEG

*Roedd Hugh yn son am ei lyfr sieciau yn ei lythyr ac mae hyn yn fy atgoffa o'r ffaith fod gormod o bobl sy'n Gymry Cymraeg naturiol ac yn ddysgwyr yn ysgrifennu eu sieciau yn Saesneg bob amser. Trist iawn. Pam, dwedwch? Beth am i chi sy'n dysgu Cymraeg ddechrau nawr i ysgrfennu pob siec yn Gymraeg. Derbyniais tua 50 o sieciau am y cwrs diwethaf yn Llangrannog a dim ond pedwar ohonyn nhw oedd wedi eu sgrifennu yn Gymraeg. Twt, twt,*

### CYMRAEG AR GASET

*Oeddech chi'n gwybod fod llawer o bobl sy'n teithio mewn car o gwmpas y wlad, ac sy'n methu â chael amser i fynd i ddosbarth nos yn dysgu Cymraeg wrth wrando ar gasetiau? Mae gan yr Uned Iaith nifer o gyrsiau fel yna ac mae dau berson yma yn Llysfaen yn meistroli'r iaith drwy wrando ar gasetiau "Cymraeg i Blant". Ie, cwrs ar gyfer plant ond dyna fe, yr un ydy'r patrymau ar bob lefel o ddysgu, ynte?*




**Ydych chi'n gwrando ar raglen arbennig y dysgwyr ar Radio Cymru, sef SIOP SIARAD? Mae SIOP SIARAD ar yr awyr bob prynhawn Sul am 4.00p.m. ac ar nos Fawrth am 6.15p.m. ac y mae hi'n llawn eitemau diddorol gan ddysgwyr, am ddysgwyr ac i ddysgwyr. Eich rhaglen CHI yw hi, felly cofiwch wrando. Fe hoffai'r Cynhyrchydd gael llythyr oddi wrthych hefyd, ar unrhyw beth sydd o ddiddordeb i chi; danfonwch at SIOP SIARAD, BBC, Llandaf, Caerdydd.**

DYSGWYR: CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG

**Penwythnos Cymraeg yn Llangrannog**

**25-27.3.77** (Welsh Weekend) **25-27.3.77**

Agored i Ddysgwyr o bob safon ac i Gymry Cymraeg.

**Arweinydd:** Gwilym Roberts, Caerdydd.

Trefnir trafnidiaeth yn ôl yr angen

**MANYLION PELLACH:**

Anne C. Uruska, CYIG., 5 Maes Albert, Aberystwyth, Dyfed.







### Newyddion (Parhad)

*Dewch i gyd ar y cwrs penwythnos yn Llangrannog — pob hwyl gyda'r gwaith yn y cyfamser.*

*JOHN ALBERT*

*GEIRFA*

| | | |
|---|---|---|
| *amrywiadau* | - | *variations* |
| *dienaid* | - | *lifeless, soulless* |
| *anystwyth* | - | *stiff* |
| *cofi* | - | *rhywun o dre Caernarfon* |
| *Gorchmynnol* | - | *imperative* |
| *Amhersonol* | - | *impersonal* |
| *Dibynnol* | - | *subjunctive* |
| *meistroli* | - | *to master* |

# MR ERFYL LEWIS

Gofid i bawb o'i ffrindiau a'i gydnabod oedd marwolaeth sydyn Mr Erfyl Lewis, Prif Ofalwr yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan, yn 53 mlwydd oed. Trawyd Mr Lewis yn wael ar ei ffordd adref i'w gartref yn y Rhondda rhyw bythefnos yn ôl, a bu farw nos Wener, Ionawr 21ain.

Ymunodd Mr Lewis â staff Sain Ffagan yng nghanol y chwedegau ac fe'i penodwyd yn Brif Ofalwr ym 1970. Yn enedigol o Gwmparc, roedd yn aelod selog a brwd o Gôr Meibion Treorci, a'i brif fwynhad oedd canu a theithio'n eang gyda'r côr hwnnw.

Y mae ein cydymdeimlad ni oll gyda'i weddw a'i fab, Wyn.

# Newyddion Tramor

Newydd a ddaeth o Jamaica bell fod Tanwen James (Jarman gynt) a'i gŵr David wedi cael mab bychan ychydig cyn y Nadolig. Aeth mamgu a datcu (Mr a Mrs Emrys Jarman) allan i'r Caribî dros y Nadolig i ddweud helo wrth eu hŵyr newydd ac i fwynhau tipyn o heulwen anhymhorol. Llongyfarchiadau i Tanwen a David — da clywed fod y teulu bach hwn yn dal i gadw mewn cysylltiad â Chaerdydd drwy gyfrwng *Y Dinesydd* bob mis.

## LLONGYFARCHION

Llongyfarchiadau i Eleri a John Jones, Gabalfa ar enedigaeth Lois Angharad — anrheg Nadolig dderbyniol dros ben!

## DYRCHAFIAD

Hyd yn ddiweddar, roedd Mr. Gwilym Owen yn ddirprwyreolwr Banc y Midland, Caerdydd - ac roedd yn dda gwybod fod Cymro Cymraeg sy'n ymhel â'r pethe yn y swydd. Ond yn awr mae wedi cael cyrchafiad ac yn gweithio yng Nghaerffili. Oherwydd hyn, bu'n rhaid iddo ailystyried swydd bwysig arall, sef Ysgrifennydd Ariannol i'r Eisteddfod Genedlaethol.

# ££ CRI O'R GALON ££

Mae gan Gymdeithas Yr Iaith Gymraeg ar hyn o bryd, ddyledion yn cyrraedd dros £2,500, yn cynnwys dyled yn y banc a biliau sy'n aros i'w talu

Ie, diau mai syfrdanol yw'r newydd, yn enwedig wedi buddugoliath Tafodau Teifi yn yr Eisteddfod. Ond rhaid sylweddoli na wnaeth yr ŵyl honno ond dod yn agos at glirio'n dyledion blaenorol. Hefyd, cymerwn i ystyriaeth rai o'r biliau a dderbyniwyd ers hynny, a haws amgyffred y sefyllfa ddifrifol sydd ohoni, e.e. papur— bron i £800 (angen rhagor yn fuan); ffôn £345 (disgwyl bil arall); posteri £500. Yn ychwanegol at hyn ceir costau'r ymgyrch ddarlledu (taith drwy Gymru ac ati): postio; cyflogau 3 ysgrifennydd; rhent, trethi, a thrydan ac ati; cyhoeddiadau'r Gymdeithas; costau banc; hysbysebion; a nifer o fân daclau y bydd eu hangen byth a hefyd er hyrwyddo'n hymgyrchoedd.

Felly gwahoddwn chwi i gyfrannu'n ariannol drwy gyfrwng y Gronfa hon — Cronfa Galan. Nod y Gronfa yw £5,000. Rhaid nid yn unig glirio'r ddyled fel y saif ar hyn o bryd, ond hefyd sicrhau nad awn i'r fath ddyled eto. A ellir gwireddu'r nod? Gellir, gyda chymorth ein holl aelodau a chefnogwyr. Felly awn rhagom!

Enw ..............................................................

Cyfeiriad ..............................................................

..............................................................

..............................................................

Cyfraniad £...................... Dyddiad ..........................

Siec / Archeb bost / arian parod

Oes angen derbyneb ..................................................

Diolch o'r galon ymlaen llaw.

Dychweler y ffurflen hon, gyda'ch cyfraniad, i: Swyddfa Cymdeithas Yr Iaith Gymraeg, 5 Maes Albert, Aberystwyth.


# "PEDWARAWD"

Drama deledu newydd John Gwilym Jones ar gyfer Gŵyl Ddewi i'w theledu ar yr **28ain o Chwefror** am **10.35p.m.** ar **HTV Cymru.** Dywed Emyr Humphreys am 'Adar Gwylltion': "Dyma ychwanegiad grymus at gorff o ddramau teilwng o unrhyw theatr genedlaethol yn y byd."

HTV CYMRU WALES

o'r Ganolfan Deledu yng Nghaerdydd

# NEWYDDION CWM RHYMNI



## Y FARI LWYD

Teithiodd y Fari Lwyd yr holl ffordd o Gaerdydd i fferm anghysbell Cefn Llwyd, ger Abertridwr eleni — fferm sy'n gartref i Gwilym a Moyra Davies, prifathrawes Ysgol Gymraeg Ifor Bach yn Senghennydd, y pentref nesaf yn y Cwm. Roedd y cwmni'n cynnwys criw o ganolfan y BBC ym Mryste a oedd yn gwneud ffilm ar hen arferion Cymreig i'w dangos ar y rwydwaith yn ystod y flwyddyn.

## BUGAIL NEWYDD

Estynnwn croeso cynnes iawn i'r Parchedig D. Eirian Rees, Efail Isaf, sy'n athro yng Nghaerdydd, ac sydd wedi derbyn gwahoddiad oddi wrth Eglwys Bethel, Caerffili, i ofalu am yr eglwys fel bugail rhan amser. Mae ei waith hynod yng nghapel Efail Isaf yn brawf ac yn dystiolaeth o'i allu a'i ddyfalbarhad ac mae'n sicr y bydd Bethel a'r cylch yn elwa o'i bresenoldeb. Bendith arno ac ar ei waith yn ein plith.

## CARREFOUR

Mae pawb wrth gwrs yn gyfarwydd â'r arch-farchnad hynod rhwng Caerffili a Llanbradach. Yn ôl un o'r bobl leol gellir ei disgrifio i'r dim drwy ynganu Carrefour fel 'Cario i Ffwrdd'! Oherwydd ei phwysigrwydd yn yr ardal mae cell Caerffili o Gymdeithas yr Iaith wedi bod yn ceisio'i pherswadio i arfer dulliau dwyieithog ar ei phapur ysgrifennu, arwyddion ac yn y blaen. Mae hefyd wedi dwyn sylw'r farchnad at y posibilrwydd o gynnal 'Wythnos Gymreig' yn null yr wythnosau cydwladol eraill a drefnwyd yno o bryd i'w gilydd. Mae'r Gymdeithas Gymraeg wedi cytuno i genfogi cais y gell ac mae'r ddau fudiad wedi cynnig cymorth ymarferol i reolwyr y farchnad gyda'r trefniadau.

## CALENDR CHWEFROR YNG NGHWM RHYMNI

2 Nos Fercher — Y SINEMA DEITHIOL
Mewn cyd-weithrediad â'r Urdd dangosir ffilmiau i'r sinema o waith Wil Aaron ac eraill yn Neuadd Tonyfelin, Caerffili.
6p.m. "Ynys y Trysor" a chartŵnau eraill i blant Mynediad 20c.
7.45p.m. "Gwaed ar y Sêr", "Cyngerdd olaf Edward H. Dafis", a "Yr Afon" — ffilm ar awdl Gerallt Lloyd Owen. Mynediad: 50c i oedolion, 25c i blant a phensiynwyr.

7 Nos Lun — Y Gymdeithas Gymraeg — 7.15p.m. yn yr Ysgol Gymraeg.
NOSON LAWEN yn nwylo medrus aelodau'r Cwmni Drama. Mynediad am ddim.

14 Nos Lun — Y Cylch Diwylliannol — 7.15p.m. yn y Ganolfan Athrawon. "Hanes y Ddrama" gan W.J. Jones.

17 Nos Iau — Merched y Wawr — 7.30p.m. yn y Twyn. Teithio ar y cyfandir — sgwrs gan Beti Wyn Jones, Llywydd Sirol Merched y Wawr.

28 Nos Lun — Cymdeithas Gymraeg Caerffili — 7.30p.m. yn Neuadd y Parc. CINIO GWYL DDEWI — gŵr gwadd, y Cyn-Archdderwydd Brinley Richards, Maesteg.
Mae nifer (cyfyngedig) o docynnau ar gael am £2 y pen oddi wrth Yr Ysgrifennydd, Gareth Roberts, 9 Gwaun Hyfred, Caerffili 867365.

# Y MUDIAD MEITHRIN

**Yn ôl at y gaib a'r rhaw ydy hanes pawb erbyn hyn ar ôl cael gwyliau Nadolig hwy nag arfer. Sut flwyddyn fydd '77 tybed? Beth allwn ni ei wneud i sicrhau y bydd rhywbeth da i'w ddweud amdani?**

Credaf y dylai ein cylchoedd Meithrin gael nod i'r flwyddyn yma. Erbyn hyn mae cyfartaledd y plant o gartrefi di-Gymraeg yn ein cylchoedd wedi codi'n sylweddol iawn — fel mai problem fwya pob cylch ydy ceisio sicrhau bod gan y plant ryw fath o grap ar y Gymraeg pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol gynradd. Mae'r dyddiau pan oedd y di-Gymraeg yn codi'r iaith yn naturiol oddi wrth y Cymry Cymraeg wedi mynd yn Ne Morgannwg. Mae dysgu'r iaith yn gorfod bod yn beth bwriadol — ac efallai nad ydym wedi dysgu gwneud hyn yn gwbl lwyddiannus eto.

Wel, pa nod? Rhoi ein holl ynni i wella safon dysgu'r iaith yn y Cylchoedd. I'r diben yma y trefnwyd i Mair Robins roi darlith ar batrymau iaith i'n hathrawon fis Tachwedd. Bu'n noson hynod lwyddiannus, â'r athrawon yn cael cysur hefyd o sylweddoli fod pawb yn ymgodymu â'r un problemau. Gyda llwyddiant y noson honno'n fyw yn y cof — mae darlith arall ar y gweill. Bydd Dan Lynn James yn rhoi darlith i athrawon De Morgannwg ar yn 17eg o Chwefror yng Nghanolfan yr Urdd am 2.15 p.m

### Dathlu'r Hen Galan

Hawdd yw digaloni yn y gwaith yma, a gofyn pam yr ydym yn stryffaglio efo'r iaith — ond mae ambell noson yn rhoi hwb ac yn gwneud i ddyn ddweud wrtho'i hun, "Wel, dyna pam!" Erbyn hyn mae Noson Dathlu'r Hen Galan gan Gylch Llandaf wedi sefydlu'i hun. Fel arfer, roedd Neuadd Goffa Llandaf dan ei ei sang ac arlwy hyfryd o fwyd, diod ac adloniant ar ein cyfer. Pleser pur oedd clywed pwt o sgwrs yma ac acw, a chlywed nifer o rieni ifanc o ddysgwyr yn dyfalbarhau i gynnal sgwrs yn y Gymraeg. Cafwyd eitemau gan Dafydd Saer a pharti Dawns yr Aelwyd efo'r Fari Lwyd, a Dr. Meredydd Evans a Hywel Gwynfryn yn ymateb i gyflwyniad y naill a'r llall gyda ffraethineb a hiwmor. Ie, meddwn wrthyf fy hun — dyma pam. Yna, yn gwbwl annisgwyl, cyhoeddodd Hywel fod Max Boyce yn y gynulleidfa ac fe'i gwahoddwyd ymlaen i ddweud gair. Chware teg i Max — fe ufuddhaodd i'r alwad ac fe ddwedodd air yn fyrfyfyr cystal ag unrhyw anerchiad Gwyl Ddewi. Rhywfodd fe lwyddodd i ysbrydoli'r di-Gymraeg a'r Cymry Cymraeg fel ei gilydd. Choelia'i byth nad oes gan Max y ddawn brin o uno Cymru. Fe gynhesodd calon pawb tuag ato. Yn ogystal â rhoi hwb i waith y cylchoedd meithrin, fe gawson ganddo ddoniolwch ac roedd ei gyfraniad yn coroni noson hynod ddifyr. Diolch i Roy Saer a chyfeillion brwd cylch Llandaf am y noson.

### Radur a Llysfaen

Rhyw greadures ddigon bler ac anhrefnus ydw i ac roedd hi'n ddiwedd Rhagfyr cyn i mi sylweddoli mai un o'r *Dinesydd* sydd i Ionawr a Chwefror, felly rwy'n ofni i mi golli'r cyfle i roi hysbyseb ymalen llaw i Noson Santes Dwynwen ar y 29 o Ionawr yn Neuadd Adloniant Ysbyty'r Waun, gan Gylch Radur. Dyma noson arall sydd wedi sefydlu'i hun yng Nghalendr Cymry Caerdydd. Fe dorrodd Cylch Llysfaen dir newydd o gwmpas y Nadolig drwy gynnal noson o garolau yng Nghapel y Bedyddwyr, Llysfaen. Daeth y Parch Raymond Williams a rhai o aelodau'r Tabernacl, Caerdydd i roi eitemau ac fe gafwyd cân gan Menai Davies. Hei lwc y bydd i'r noson yma hefyd ddod yn arferiad blynyddol.

### Porthi'r Cylchoedd!

Calonogol yw cael cyhoeddi bod Cadeirydd ac Ysgrifennydd ein Pwyllgor Sir yn gofalu am ddyfodol y cylchoedd mewn modd ymarferol iawn!

Llongyfarchiadau i'r ddau deulu ar y newydd-ddyfodiaid - teulu Wyndham Richards, a theulu Mrs. Eleri Jones.

### Llwyddiant yn Sblot

Y newyddion yma ar ddechrau blwyddyn fel hyn yw'r datblygiad cyffrous yn hanes Cylch y Sblot. Ddechrau'r tymor yma, trosglwyddwyd Cylch y Sblot i Uned Feithrin Moorland Road. Diolchwn i'r awdurdod Addysg am dderbyn ein cais ac i Mrs. Smith y brifathrawes am ei brwdfrydedd yn ymateb i'r her. Diolchwn i Margaret Evans fu'n athrawes yn Sblot o'r dechrau ac i Mari Thomas fu'n ei chynorthwyo. Carwn ddiolch hefyd i swyddogion Bethlem am roi cartre i'r Cylch. Y gobaith yw dal i gynnal Cylch Mam a'i Phlentyn yno fydd yn fodd i fwydo'r gornel Gymraeg ym Moorland Road. Yn sicr, o ran adeilad a chyfarpar, bydd y plant ar eu hennill, ac y mae brwdfrydedd Mrs. Smith a Catrin Ball, yr athrawes Gymraeg, rwy'n siwr yn mynd i sicrhau y bydd gan blant y sblot grap go dda ar y Gymraeg pan ânt i Fryntaf. Pob dymuniad da i Cartin Ball efo'i chriw bach.

### DIOLCH

Cyn cloi, hoffwn ddiolch i Gylch Cinio Cymraeg y dynion yng Nghaerdydd am eu cyfraniad i goffrau Pwyllgor Sir De Morgannwg. Calondid mawr yw pob cefnogaeth.

SHÂN EMLYN

# colofn sbectol SIAN *

## ISLWYN JONES A'R HANNER MILIWN

Wel, go dda Islwyn Jones, ynte? Na, nid Islwyn Jones y Barri, ond yr un arall 'na — hwnnw roddodd res o swsus i Littlewoods ac ennill 567,776 o smackers. Nawr mae e'n cwyno ei fod o wedi ennill gormod a ddim yn gwybod beth i'w wneud â'r pres. Wel, fe allai Islwyn Jones y Cyntaf ddweud wrtho, mae'n siwr gen i — fe fyddai Steddfod y Barri'n falch o gwpwl o'r miloedd sy dros ben. A bod yn hunanol, ar ôl y llythyr diweddara oddi wrth y banc (dim swsus yn hwnnw, bid siwr), dwi'n mynd i sgwennu at y Br Jones ac awgrymu un neu ddau o betha y galla fo wneud efo'i brês. Hwyrach y medren ni ddod i ryw fath o gytundeb parhaol ....wel, does dim angen bod yn hen lanc am byth, oes e Islwyn bach?

## BUZBY

Deryn bach prysur iawn o gwmpas Dolig oedd Buzby — hwnnw oedd yn ei hannog ni i ffonio rhywun dros yr Wyl ac ati ar hysbysebion Swyddfa'r Post. Gan rheini'n hysbysebion Cymraeg, rown innau'n meddwl fod y deryn bach yn rhugl yn yr hen iaith ond dyma'r ymateb a gafodd cyfaill o Sir Fôn pan sgwennodd yn Gymraeg at Buzby a'i ffrindiau yn Swyddfa'r Post! Rhaid bod 'na ddau Fuzby, felly, un yn Sais a'r llall yn Gymro. Rhyfedd mai yng Nghaerdydd mae'r deryn o Gymro'n byw hefyd.

## DYNA WYRTH WLWYRTH

Cwmni WOOLWORTH oedd cwmni'r mis yn rhifyn mis Tachwedd o *Dafod y Ddraig*, a hynny oherwydd eu bod yn gwrthod defnyddio'r Gymraeg yn eu siopau. Cyhoeddwyd dau lythyr oddi wrth ddau o swyddogion y cwmni yn cynnwys ymadroddion fel "... it would not be economically in the interests of our customers at large to incur the cost of separate printing..." ac ati. Yna, dyma ni'n clywed rhyw bythefnos yn ôl fod y cwmni'n bwriadu mabwysiadu polisi o ddwyieithrwydd mewn rhai o'u siopau yng Nghymru wedi'r cwbwl. Newid meddwl bob yn eilddydd — THAT'S THE WONDER OF WOOLWORTH'S.

Ar yr un pwnc, braf iawn oedd gweld siop yr NCC (Y Fferyllwyr Cydweithredol) yn Wellfield Rd yn arddangos clamp o hysbysfwrdd mawr Cymraeg yn annog eu nwyddau hwy ar y cyhoedd am "Iechyd Teulu a Phrydferthwch"! Iechyd da i'r NCC hefyd!

## KEYRYDD KEDYRN HARLEK

**HTV CYMRU/WAL**
9.30 **Finding Out.** 9.47 **I**
**to Read.** 9.57 **How We L**
**Live.** 10.20 **Look Around**
**Rhamant Y Kestyll:** Grym y
**My World: Stories**
**The World Around Us.**

Dyma rai o'r kestyll yr ymwelir â nhw yn y rhaglen ddiddorol hon: Kastell Koch, Kastell Kaerdydd, Kaerffili, Konwy, Kaernarfon, Kydweli, Karreg Kennen, Kilgeran, Kasgwent ac, wrth gwrs, Kastell Harlek. Wel, wnawn ni ddim cweryla am orgraff, ond beth am ynganiad? O fewn rhyw awr un noson, fe glywais i dri chyhoeddwr gwahanol yn son am raglen yn ymweud â Bangor, ond prin y credech chi eu bod nhw'n son am yr un lle. "BANGORR" medde Gwyn Parri, â'i lond ceg o gytseiniaid cyhyrrog sydd bob amser mor braf i'w clywed, ond BANGOH medd Margaret Pritchard, yn anîmic braidd. "BANGUGH" oedd ymgais y trydydd, a gaiff fod yn ddienw.

Peth rhyfedd arall gyda Chwmni Teledu Harlech yw eu amharodrwydd i ddefnyddio cytundebau Cymraeg. Nid son am y cytundebau cyffredinol ar gyfer sgyrsiau ac ati yr ydw i — ond son am ffrind i mi sy'n ysgrifennu sgriptiau Cymraeg ar gyfer rhaglenni plant Cymraeg y cwmni Cymreig hwn, gan dderbyn cytundeb Saesneg ganddynt bob tro, er gwaethaf pob protest. Mae'n debyg fod y hyn yn "bolisi" gan y cwmni .... pam tybed?

6.11.1976

The General Manager thanks you for your communication of not dated. This is receiving attention. Your letter has been forwarded to Cardiff for translation

## Y BI BI SI

Hwyrach ei bod hi braidd yn gynnar i ddechrau rhoi barn ar Radio Cymru, ond rhaid i mi gyfaddef fod un peth ar *Helo Bobol* wedi fy nghythruddo i gryn dipyn. Gwasgu botwm y radio yn gysglyd un bore i glywed Gwynfryn yn gwibio o gwmpas Cymru yn gofyn am restr o ddigwyddiadau lleol — a beth gawson ni? Rhestr faith o ffilmiau Saesneg a oedd i'w gweld yn y sinemau lleol. A dyw dweud y teitlau hynny, JOS, DDY PINC PANTHYR SDREICS AGEN ac ati mewn ffordd Gymreigaidd ddim yn gwella dim ar bethau. Nawr, dwi mor hoff o fynd i'r sinema a gweld ffilmiau Saesneg â neb arall — ond dyma'r math o wybodaeth sydd ar gael mewn papurau lleol Saesneg, ac sy'n cael digon o gyhoeddusrwydd mewn ffyrdd eraill. Onid swyddogaeth rhaglen radio Gymraeg (fel papur lleol Cymraeg) yw rhoi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau Cymraeg na chaiff yr un sylw gan y cyfryngau Saesneg?

## JÔS TOST

Son am "JÔS", angaredig braidd oedd ymateb papur lleol yn Aberystwyth i anffawd Nesta Jones o Gaerdydd (merch W.J. ac Enid Jones). Fe syrthiodd yr hogan druan ar ei hwyneb ar risiau'r Neuadd Fawr, a brifo'i gên a'i dannedd — a dyma'r papur lleol yn cyhoeddi'r hanes o dan y pennawd "JAWS"! Mae'n siwr y base Nesta wedi sgyrnygu 'i dannedd ond bod hynny'n broses rhy boenus ar y pryd! Mae'n dda clywed ei bod allan o'r ysbyty erbyn hyn ac yn gwella'n iawn.

## WELL DONE/GO DDA

Yng nghanol yr holl gwyno 'ma am ddiffyg dwyieithrwydd (on'd 'tydi hi'n anodd plesio pawb? Rai wythnosau yn ôl, cafodd John Albert gwyn fod "gormod o'r hen fusnes Cymraeg 'na yn y *Dinesydd* 'na"!!??), braf yw gallu llongyfarch un sefydliad Cymreig ar gymryd camrau mawr ymlaen at bolisi o ddwyieithrwydd llwyr. Cyfeirio yr ydw i wrth gwrs at *Y Cymro* (*The Welshman*) lle mae stori gyfres gyffrous y Br R. Gerallt Jones yn torri tir cwbl newydd ym maes llenyddiaeth Wenglish, a bron yn llwyddo i gadw'r ddysgl yn gwbl wastad rhwng y ddwy iaith. Wel, fe fu tipyn o gwyno wedi i bennod uniaith Gymraeg ymddangos rai wythnosau yn ôl, ond roedd y bennod ddiwethaf a welais i (*Y Cymro*, Ionawr 18) yn gyforiog o ddeialog Saesneg rywiog a graenus, yn dangos gallu anhygoel yr awdur hwn i drin priod-ddulliau mwyaf modern yr iaith fain. Beat that, Alistair Maclean, os medrwch chi, that is, ynte?

# WEDI GWELLA

Bu Mr. Hugh Price, Trysorydd y ddinas mewn damwain car bur gas yn ystod y Nadolig a threuliodd beth amser yn yr ysbyty. Mae ei lu cyfeillion yn falch deall ei fod wedi dechrau ailafael yn ei waith. Ef yw Trysorydd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd - ac mae'n dda deall fod llygad barcud ar y prês!

# I Wlad yr Addewid

Fe fydd y Parch W I Cynwil Williams yn arwain Taith i Balestina adeg y Pasg. Pythefnos fydd hyd y daith, o Ebrill 9fed i'r 23ain, ac fe dreulir wythnos yn Jerusalem ac wythnos yng Ngalilea. Mae rhai seddau ar ôl o hyd; am fanylion pellach ynglŷn â'r daith, ffoniwch Caerdydd 36457 CYN CHWEFROR 7fed.

## O'R WAUN I'R WAUN

Mae Gareth a Rosalind Williams a'u dau blentyn wedi symud tŷ'n ddiweddar - mynd yr holl ffordd o Gefn Carnau i Heol Crystalwood. Pwb lwc iddyn nhw ar eu haelwyd newydd. Athro yn Ysgol Rhydfelen yw Mr. Williams, ac mae Mrs. Williams hefyd â diddordeb yn y pethe ac roedd ganddi le amlwg mewn cyhoeddiad Ysgol Sul a gynhyrchwyd yn ddiweddar.

# Adolygiadau

## Dyddiau a Fu

**"Pan fydd pobl farw mae'r byw, yn hwyr neu'n hwyrach, yn eu hanghofio nhw... Yng Nghymru, y beirdd oedd yn cadw cof... Y beirdd oedd yn sefyll yn wyneb angau ac yn nannedd anghofrwydd." Felly medd Gwyn Thomas yn ei gyfrol ragorol *Y Traddodiad Barddol*, cyfrol a fwriedir yn bennaf, yn ôl y rhagair, ar gyfer disgyblion y chweched dosbarth ond sydd ag apel llawer ehangach na hynny, dybiwn i.**

Ymdrin y mae yn y fan hon ag un o elfennau pwysicaf a mwyaf parhaol traddodiad barddol Cymru, sef canu mawl. Y mae ei ddull eglur a gonest o ymdrin â'i bwnc — ("Felly nid gweniaith ydyw mawl. Neu, o leiaf, does dim rhaid iddo fod yn weniaith.") — yn nodweddiadol o arddull ac ysbryd y llyfr hwn, ac yn un o'r pethau sy'n ei gwneud hi'n gymaint mwynhad ei ddarllen.

Eglurdeb a gonestrwydd; gellir ychwanegu at hynny wreiddioldeb y syniadau a ffraethineb y traethiad. Ydy, mae hiwmor Gwyn Thomas yn llwyddo i fyrlymu i'r wyneb hyd yn oed wrth ymdrin a phwnc mor "ddwfn" â hwn; dyw'r ffaith fod y pwnc yn un pwysig ddim yn golygu fod yn rhaid wrth wep hir wrth ei drafod. Mae'r hiwmor yn wir yn erfyn pwysig wrth geisio egluro traddodiad oes a fu wrth gynulleidfa'r ugeinfed ganrif, a dangos peth mor fyw ydyw fyth er gwaethaf treigl y canrifoedd. Felly, roedd Neuadd Mynyddog Mwynfawr "yn ôl pob tebyg, yn fwy cyffelyb i dafarn yn nhre'r Eisteddfod Genedlaethol nag i ddim arall,"; mae'r awdur yn cyfaddef fod llawer o'r daroganau eilradd "o ran eu profiad barddonol mor ysbrydoledig â'r *Radio Times*,"; dyna lond gwely o Alf Garnetiaid" meddai am y tri Sais yn y cywydd "Trafferth mewn Tafarn," gan ychwanegu wrth fynd heibio, "gellid cyfieithu 'soeg enau' i'r dim gyda'r Saesneg *slobber chops*"!

Mae ei bennod ar Ddafydd ap Gwilym yn gampwaith ynddi ei hun. Dyma ddadansoddiad cytbwys a chyflawn o un o feirdd mawr Ewrop. Un o brif themau'r bennod hon yw nad yw ymwybyddiaeth gref Dafydd o angau ac o henaint wedi ei llawn werthfawrogi. Ydyw, mae Dafydd ap Gwilym yn fardd natur a serch, yn ddoniol ac yn watwarus am yn ail — ac y mae Gwyn Thomas yn ymdrin yn llawn â'r agweddau hynny — ond myfyriodd y bardd ar brofiadau mwyaf sylfaenol dyn hefyd, a gweld cysgod angau yn y llannerch heulog. Efallai nad peth newydd a syfrdanol yw dweud fod Dafydd, fel llawer bardd arall, wedi cysylltu'r haf â ieuenctid, a'r gaeaf â henaint a marwolaeth — ond mae angen pwysleisio i'r fath raddau y mae "gaeaf yn ogystal â haf yng ngwaith Dafydd." Yn wir, mae Gwyn Thomas am i ni fod yn hollol sicr o hyn: "Welwyd ddim haf tebyg i haf Dafydd mewn llenyddiaeth Gymraeg, a welwyd ddim gaeaf fel ei aeafau o ychwaith."

Adran hynod ddiddorol o'r gyfrol hon yw'r un ar y Gogynfeirdd, maes y tuedda pawb ond yr ysgolhaig a'r ieithydd ei osgoi oherwydd anhawster y canu hwnnw. Unwaith eto, mae Gwyn Thomas yn derbyn hynny yn onest: "Dyw'r bobol hynny sy'n cadw copïau o *Lawysgrif Hendregadredd* wrth erchwyn eu gwlâu ddim yn baglu ar draws ei gilydd gan eu lluosoced, does dim dwywaith am hynny." Wedi derbyn fod yna anhawsterau, â'n syth ymlaen i ddadansoddi beth sy'n anodd yng ngwaith y Gogynfeirdd ac i egluro pam roedden nhw'n canu felly.

Ei awgrym ef yw fod hynodrwydd eu cystrawen a'u geirfa yn deillio'n uniongyrchol o'u hawydd am ganu'n wreiddiol o fewn cyfyngiadau traddodiad caeth iawn ei gynnwys syniadol a delweddol.

Soniais uchod am onestrwydd yr awdur, ac fe welir hynny'n glir wrth iddo gydnabod barbareiddiwch llawer o'r Canu Cynnar — fel a fynegir yn y llinell ofnadw, "Seineisid ei gleddyf ym mhen mamau" — neu allu Dafydd ap Gwilym i fod yn chwerw-giaidd pan fynn. Does 'na ddim ymgais i wyngalchu, i geisio gwneud pethau'n dderbyniol i'n safon a'n moes ni heddiw, i ddelfrydu beirdd a'u cerddi am y rheswm syml eu bod nhw yn Gymraeg.

Gallwn son llawer mwy am y gyfrol ddiddorol hon, ond rhaid cloi rhywle. Un peth sy'n sicr: sut bynnag y darllenwch y llyfr hwn — fel gwerslyfr, neu fel cyfrol i'w mwynhau yn y gwely (fel yr adolygydd hwn), fel arweiniad i faes cymharol ddieithr, neu fel atodiad i waith ymchwil sydd eisoes ar y gweill — fe gewch ryw fewnwelediad newydd ar lên Cymru drwyddo. Y mae'r weledigaeth fywiog a'r sylwadaeth fanwl a geir o fewn fframwaith arolwg digon bras o fileniwm cyntaf ein llenyddiaeth yn gwneud y llyfr hwn yn arweiniad meistrolgar i'r pwnc; dyma "fraslun" sy'n deilwng i sefyll ochr yn ochr â'r Braslun arall enwog hwnnw.

*"Y Traddodiad Barddol" Gwasg Prifysgol Cymru £2.75.*

## AR DAF

Croeso i rifyn cyntaf cylchgrawn Cymraeg newydd yn y brifddinas, sef *Ar Daf*, Papur Cymraeg Myfyrwyr Colegau Caerdydd. Mae ymddangosiad y papur hwn yn un arwydd o frwdfrydedd a gweithgarwch y genhedlaeth bresennol o fyfyrwyr o Gymry yng Nghaerdydd ar ôl rhai blynyddoedd digon tawel. Mae yn y papur erthygl bwysig ar "Hollti'r Brifysgol", yn ymdrin â'r posibilrwydd y gallai Coleg y Brifysgol, Caerdydd gyfuno â'r Athrofa i ffurfio un coleg mawr, a cheisio torri pob cysylltiad â Phrifysgol Cymru. Ymdrinir hefyd â'r gwrthdystiadau diweddar yn y coleg a'r ymgyrch dros sefydlu neuadd breswyl Gymraeg yn y coleg. Dylid danfon cyfraniadau llenyddol at: AR DAF, 100 Wyndham Crescent, Treganna, Caerdydd. Cyst y papur 12c.

## Y POST

Mae 'na dipyn o raen ar y rhifyn diweddaraf (Rhagfyr '76) o'r *Post*, papur Cymraeg Penarth a'r Cylch, gydag erthygl ddiddorol iawn ynddo ar hen enwau lleol cylch Penarth — enwau Cymraeg, bron yn ddieithriad. Da clywed hefyd mor llwyddiannus fu Gŵyl Hydref y dref. Yn sgil y derbyniad da a gafodd hyd yn hyn, fe hoffai'r papur ehangu o ran maint yn awr ond, wrth gwrs (y gri oesol), mae angen arian ar gyfer hynny. Os teimlwch y gellwch helpu'r papur, fe fydd y Golygydd yn ddiolchgar iawn am unrhyw gyfraniad, mawr neu fach. Danfonwch at: Y POST, 129 Heol Redlands, Penarth.


**Oriel**

**53 Heol Siarl Caerdydd**
**Teliffon: 0222 395548**

### Lluniau o Awduron

- Cyfres o gardiau post newydd.
- Cyfres o 14 llun o awduron Cymreig ac Eingl-Gymreig ar ffurf cardiau post du a gwyn 6ch yr un.
- Poster yn dangos pobun o'r cardiau post hefyd ar gael £1.50 yr un.

### Digwyddiadau awr ginio

- Dydd Iau, Chwefror 10 1.00–2.00p.m. R.S. THOMAS.
- Lansio'r record newydd a gyhoeddir gan ORIEL.
- Bydd Raymond Garlick yn darllen hefyd.

*Croeso i bawb*

# "NEL YN SAL"

## ...yn sal iawn!

**Nid gormodiaith fyddai dweud fod 'na chwyldro wedi digwydd ym myd cyhoeddi llyfrau Cymraeg i blant yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae 'na gyfrolau cyffrous, lliwgar, newydd a diddorol yn ymddangos o'r gweisg bob yn eilddydd erbyn hyn; bron na ddiflannodd y dyddiau hynny pan fyddai rhieni'n cwyno'n drist mai'r llyfrau Saesneg lliwgar, deniadol oedd yn mynd â bryd y plant, a bod y llyfrau Cymraeg, er gwaethaf pob ymdrech ar ran y rhieni, yn gorwedd yn anghof ar y silff lyfrau.**

Bron, meddwn i. Ond ddim yn llwyr. Roedd bwrw golwg dros gyfres newydd o lyfrau plant a gyhoeddwyd gan gwmni Christopher Davies yn ddiweddar fel cymryd cam mawr yn ôl i'r gorffennol — i oesoedd tywyll cyhoeddi llyfrau Cymraeg.

Y dirgelwch mwyaf ynglŷn â *Chyfres Nel* (heblaw am y crocbris a godir am y llyfrynnau hyn) yw beth yn y byd oedd bwriad y cyhoeddwyr wrth gynhyrchu'r fath bethau diflas yn y lle cyntaf. Lluniau anghelfydd, anniddorol ac anniben: "stori" llai diddorol fyth, yn ddim byd mwy na stribed o hanner-brawddegau yn ail-adrodd un patrwm syml. Digon defnyddiol i barot araf-ei-feddwl, debyg iawn, ond da i ddim i blentyn yn meddu ar yr un gronyn o ddychymyg, diddordeb a deallusrwydd.

Yn ôl amcangyfrif un cyfaill, dim ond rhyw naw neu ddeg o eiriau Cymraeg newydd y bydd pob llyfryn yn eu cyflwyno i'r plentyn; felly, ar gyfartaledd, fe gyst pob gair newydd bum ceiniog i'r rhieni! Mae'n siwr fod 'na ffyrdd rhatach na hyn ddysgu darllen Cymraeg, heb son am ffyrdd mwy difyr!

Hwyrach eich bod chi'n meddwl 'mod i'n gorddweud? O'r gore, gwrandewch ar hyn; dyma *Nel yn Siopa* i chi yn ei grynswth, y tro cyntaf, mae'n siwr, i unrhyw bapur newydd fedru cyhoeddi cyfrol gyfan yn ei golofnau! "Dyma Nel. Ga i fasged? Ga i fara? Ga i deisen? Ga i sosej? Ga i ddiod oren? Ga i barti? Dyma barti Nel." Ie, dyna gynnwys "storïol un gyfrol gyfan — gwefreiddiol, a dweud y lleia.

Ond hwyrach mai'r peth mwyaf gwarthus ynglŷn â'r gyfres ddiwerth hon yw'r ffaith iddi gael ei chyhoeddi o dan nawdd Cynllun Llyfrau Cymraeg Cyd-bwyllgor Addysg Cymru. Mae angen gras! Gan wybod fod y Cyd-bwyllgor wedi gwrthod llyfrau ddengwaith mwy diddorol a chanwaith mwy deniadol na'r rhain oherwydd fod y Cynllun wedi ei drefnu rai blynyddoedd ymlaen llaw, mae dyn yn dechrau amau beth yw'r meini prawf a ddefnyddir wrth ddewis deunydd i'w gynnwys yn y cynllun hwn. Oes 'na rywun yn y Cyd-bwyllgor yn *darllen* y stwff cyn rhoi sêl bendith y sefydliad arno? Ac os oes, yna sut yn y byd y llithrodd Nel drwy'r rhwyd?

Dewch odd 'na, bois — mae plant Cymru'n haeddu gwell na hyn, ac maen nhw wedi dysgu i ddisgwyl gwell na hyn erbyn heddiw hefyd, diolch i'r drefn.

*Cyfres Nel (8 llyfryn) gan Edna Jenkins. Cyhoeddwyd gan Christopher Davies (Cyhoeddwyr) Cyf. Pris 45c yr un.*


THEATR COLEG Y BRIFYSGOL CAERDYDD
SHERMAN
THEATRE OF UNIVERSITY COLLEGE CARDIFF

Chwef 13 8pm £1.00
UN BRIODAS
Cyflwynir detholion o weithiau John Gwilym Jones gan gynnwys perfformiad o UN BRIODAS

Chwef 21-23 8pm 70c.
GWREICHION
CWMNI THEATR CYMRU

Mawrth 6 8pm £1.00
EBEN FARDD
Guto Roberts yn cyflwyno detholion o ddyddiadur Eben Fardd a Mered yn canu rhai o'i gerddi.

Swyddfa Docynnau
CAERDYDD 25855
Llun-Sad 10a.m.-6p.m.


# Pantomadog!

Galwodd Pantomadog yn y Sherman ychydig yn ôl ar ei ffordd i ddarganfod America, ac ar y nos Sadwrn y bûm i yno, roedd y lle'n gyffyrddus lawn gyda mwyafrif y gynulleidfa'n blant.

Does dim angen mynd yn bellach na'u diddordeb hwy ym mhopeth a ddigwyddodd ar y llwyfan i ddweud i'r cyfan daro deuddeg. Roedd eu hymateb yn heintus — yn wir, roedd mor heintus nes y teimlwn ar adegau y byddau'n well pe bai'r actorion wedi defnyddio mwy ohonyn nhw.

Roedd cryn sglein ar y perfformiad, y gerddoriaeth yn dda, y gwisgoedd yn lliwgar, a'r holl actorion yn chwarae eu rhannau yn ddigon cymeradwy. Gresyn, mewn ffordd, na fyddai'r pantomeim ei hun yn well, yn rhoi cyfle gwell i'r actorion ddisgleirio. Ar ryw olwg, gellid galw'r cyfan yn gyngerdd hwyliog, neu dau gyngerdd os mynner — un ar fwrdd llong a'r llall mewn plas. Roedd y stori'n bur denau, hyd yn oed mewn pantomeim. Nodaf hyn gan y gwn fod yma ddeunydd crai i wneud cyfiawnder â gwaith llawer mwy uwchgyrhaeddol. Yn wir, roedd sawl sbot yn y cynhyrchiad yn wir effeithiol, ac yn denu pyliau o chwerthin, ofn a chnoi ewinedd yn gymysg â'i gilydd.

Dim ond un cwmwl du oedd ar y ffurfafen hapus hon. Cwynai'r Cwmni Theatr mai ychydig iawn o gynulleidfa a gafwyd ddechrau'r wythnos; trist yw meddwl nad oes digon o bobl yng Nghaerdydd yn fodlon cefnogi cynyrchiad theatr Cymraeg i gyfiawnhau wythnos lawn o berfformiadau yn y brifddinas. Ond ar y llaw arall, hwyrach nad ar y gynulleidfa y mae'r bai i gyd y tro hwn.

Derbyniodd *Y Dinesydd* sawl cwyn gan famau yn gresynu mai dim ond dau berfformiad prynhawn a gafwyd (ac un o'r rheini ar adeg amhosib, pan oedd yr ysgolion yn ail-ddechrau). Pam yn y byd na chafwyd perfformaid brynhawn Sadwrn? Neu os oedd hi'n rhy anodd i'r cwmni drefnu perfformiadau prynhawn ar adegau cyfleus, oni ellid fod wedi cychwyn yn gynt gyda'r hwyr? Pebai'r sioe wedi cychwyn tua chwech — neu'n syth ar ôl ysgol, hyd yn oed — fe fyddai wedi bod yn bosibl dod â plant bach i'r perfformiad hwnnw. Fel roedd hi, roedd sioe a gychwynai am saith acna orffennai hyd chwarter wedi naw yn rhy hwyr i lawer o'r plant llai.

Mae'n ddigon gwir fod oedolion yn mwynhau pantomeimiau'r Cwmni Theatr gymaint â'r plant — ond ar yr un pryd, sioe i blant yw hi yn y bon a dylid cadw hynny mewn golwg wrth drefnu'r daith, fel bod cyfle i bod plentyn fwynhau'r perfformiadau hwyliog hyn.

## PENODIAD NEWYDD

Penodwyd Gwynn ap Gwilym, sydd ar hyn o bryd yn ddarlithydd yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Corc, Iwerddon i swydd newydd fel Ysgrifennydd llawn-amser i'r Academi Gymreig. Bydd yn gweithio o swyddfeydd Cyngor y Celfyddydau yng Nghaerdydd, dros dro o leiaf.

CADERNID GWYNEDD
BUDDSODDWCH
YNG NGHYMRU




CYMDEITHAS
TAI GWYNEDD

DANFONWCH HEDDIW AT

Dafydd Iwan
Cymdeithas Tai Gwynedd

Penygroes, Ffôn 730
Caernarfon
Gwynedd

Dymunaf fuddsoddi £ yng Nghymdeithas Tai Gwynedd (am o leiaf 3 blynedd, gyda rhybudd o 6 mis cyn ei godi allan).
*Ar log o 9%/*yn ddi-log
(*dilewch un).
Amgaeaf siec am y swm uchod
Arwyddwyd ...............

# YR URDD: O'r Ganolfan

## Dosbarth Caerdydd

Bu'r cyfnod cyn y Nadolig yn amser eitha prysur ar arweinyddion ac aelodau Dosbarth Caerdydd. Uchafbwynt y gweithgareddau oedd y Gwasanaeth Nadolig a gynhaliwyd yng Nghapel y Tabernacl ar yr 8fed o Rhagfyr. Roedd y trefniadau eleni yng ngofal Mrs. Anita Davies, Ysgol Gynradd Rhiwbeina, a Mrs. Jenny Anetts, Ysgol Uwchradd Willows. Yr arweinydd gwadd oedd Mr. Iwan Guy a'r organydd oedd Mr. Arwel Hughes. Roedd rhwng 700 ac 800 o blant yn bresennol, a chymerwyd y rhannau arweiniol gan nifer o gynrychiolwyr o'r gwahanol ysgolion.

Fe aeth rhaglen weithgareddau yr ysgolion cynradd yn ei blaen yn eitha hwylus yn ystod y tymor; penllanw'r nosweithiau hyn i'r plant yw'r Parti Nadolig. Daeth rhyw gant ohonynt ynghyd i'r Ganolfan ar Rhagfyr 13 i fwynhau'r parti ac i brofi'r amryw ddanteithion a ddaeth i law drwy garedigrwydd y rhieni.

Bydd y rhaglen hon yn ailgychwyn ar ddydd Llun y 24 o Ionawr. Ein bwriad y noson honno yw defnyddio'r cyfle i roi ychydig o gymorth i'r Ganolfan drwy gael y plant i lenwi bocsus gyda photeli bychain a ddaw i'r Ganolfan bob rhyw dair wythnos. Pe digwydd inni golli'r poteli, fe drefnir dawns werin yn lle hynny.

Bydd y Pwyllgor Dosbarth nesaf yn cyfarfod ar ddydd Llun 31 Ionawr yn y Ganolfan. Disgwylir adroddiadau am y ddwy Eisteddfod Gylch gan Mr. Goronwy Jones, Ysgol Gynradd Cwrt-yr-Ala a Mr. Zac Davies, Ysgol Uwchradd Llanrhymni. Gofynnwn am gynrychiolwyr o'r holl adrannau er sicrhau llwyddiant y ddwy eisteddfod, a llwyddiant Eisteddfod y Barri yn y pendraw.

G. DAVIES

## Y Warden Newydd

Warden newydd Canolfan yr Urdd fydd Alan Gwynant o Flaenau Ffestiniog. Fe fydd yr hen warden (mae'n ddrwg gen i, y warden presennol, ddylwn i ddweud) sef y Br. Ian ap Dewi yn dychwelyd i'w hen gynefin i weithio ar staff Gwersyll yr Urdd, Llangrannog ymhen ychydig fisoedd.

Ar hyn o bryd, mae Alan Gwynant wrthi'n cwblhau cwrs hyfforddiant mewn gwaith ieuenctid mewn coleg ym Manceinion; gobeithia ddechrau ar ei waith yn y Ganolfan ym mis Gorffennaf. Y mae eisoes wedi treulio peth amser yng Nghaerdydd yn gweithio yn y Ganolfan gyda Ian ac yn dod i ymgyfarwyddo â'r lle. Pob hwyl iddo gyda'i waith colegol — ac edrychwn ymlaen at ei groesawu i Gaerdydd yn yr haf.

Mae'r gwaith o drin y prydredd sych yn y Ganolfan ei hun bellach wedi dod i ben, ond mae 'na lanast difrifol yn dal i fod yn y lle ac fe fydd angen llawer o waith caled gyda brwsh paent i adfer y Ganolfan i'w chyflwr blaenorol. Croeso felly i unryw wirfoddolwr sy'n fodlon helpu gyda'r gwaith; dylid ymgysylltu â John Albert Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli ar y mater hwn.

Mae apel y Ganolfan wedi codi ychydig dros £1,000 erbyn hyn. Cafwyd ymateb eitha da gan unigolion ond siomedig ar y cyfan yw ymateb cymdeithasau'r brifddinas. Os nad yw'ch cymdeithas chi wedi cyfrannu i'r gronfa hyd yn hyn, a wnewch chi godi'r mater gyda'ch swyddogion os gwelwch yn dda, a gwasgu arnynt i gyfrannu rhywbeth — mae angen miloedd eto i dalu am yr holl waith.

GORFFWYSWCH -
YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

(Perchennog J.M. CROOKES)

Cerbydau moethus gyda 20-51
o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU
Ffôn Caerdydd 31174

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE,
CAERDYDD.

(Nosweithiau Ffôn 63250)

## PONTIO

Mae Cymdeithas yr Iaith wedi cyhoeddi taflen o'r enw "Siarad â Dysgwyr" sy'n rhoi nifer o reolau syml i Gymry Cymraeg eu dilyn wrth siarad â dysgwyr, e.e. dechrau'r sgwrs yn Gymraeg; cario 'mlaen yn Gymraeg, hyd yn oed os bydd y dysgwr yn troi i'r Saesneg; peidio â chyfieithu i'r Saesneg heb i'r dysgwr ofyn i chi wneud hynny; siarad am bopeth dan haul yn Gymraeg, nid dim ond am y tywydd a phethau diflas felly!

Mae rhan olaf y daflen yn son am "bontio", sef y cam anhawsaf o'r cwbl; mae'n gofyn am i Gymry Cymraeg ymrwymo i siarad dim byd ond Cymraeg gydag un dysgwr, a pheidio a defnyddio'r Saesneg o gwbl. Mae'n holl-bwysig i ddysgwr gael gael un neu ddau o ffrindiau sydd heb siarad dim byd ond Cymraeg ag ef erioed, ffrindiau y mae wedi sefydlu perthynas â hwy drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r daflen yn cloi drwy apelio at Gymry Cymraeg sy'n fodlon bod yn "bont" i ddysgwr i ddanfon eu henwau a'u cyfeiriadau at Grŵp Dysgwyr Y Gymdeithas.

AR OSOD — BWTHYN GWYLIAU YNG NGHYLCH Y BALA. LLE I CHWECH GYSGU. CYFLEUSTERAU MODERN. HAWL PYSGOTA

— D. PUW, CASTELL HEN, PARC, Y BALA - FFÔN, LLANUWCHLLYN 664.

# Hiraeth ar ôl Athrawes Annwyl



*MRS L.M. LEWIS A'I GŴR*

**Ar droad y flwyddyn bu farw Mrs L.M. Lewis 90 Heol Ninian, Caerdydd, Fe'i trawyd yn wael yn sydyn ddydd Calan, bu farw drannoeth yn yr ysbyty Brenhinol yn 70 oed.**

Treuliodd Mrs. Lewis ei hoes yn rhoi gwersi ar ganu'r piano yn ei chartref yn Heol Ninian ac ar hyn o bryd roedd ganddi drigain a dau o ddisgyblion a'r mwyafrif ohonyn nhw yn Gymry Cymraeg. Ati hi yr heidiai y plant am fod y naill yn son wrth y llall amdani a'i ffordd garedig o ddysgu. Rhyw saith oed fyddai'r plant yn dechrau a doedd Mrs. Lewis yn deall dim Cymraeg. Pan gyflwynai hi'r nodau yn y wers gyntaf a son am y nodyn "A", am "E" y meddyliai'r plant a dyna hi'n draed moch yn syth! Ond doedd dim angen i'r un plentyn o Gymro boeni'n ormodol, dros y blynyddau roedd hi wedi dod i ddeall eu anhawster a byddai'n llawn cydymdeimlad â phob plentyn nad oedd yn rhugl yn yr iaith fain.

Pan briododd hi â Mr. Clifford Lewis yn 1934 ac ymsefydlu yn Heol Ninian dechreuodd y ddau ar yrfa oedd i barhau am ddeugain a thair o flynyddoedd. Mrs. Lewis yn dysgu'r plant iau a Mr. Lewis yn cymryd at y rhai hŷn. Roedd y ddau yn athrawon tan gamp ac y mae cenedlaethau o ddisgyblion yn ddyledus iddyn nhw. Yn ifanc iawn, dechreuodd y ddau ymddiddori yn yr "Alexander Technique of the Use of the Self". Derbyniai Mrs. Lewis hyfforddiant personol gan Mr. Alexander ei hun a phan aned eu mab fe'i galwyd yn Dyfan Alexander. Mae ef erbyn hyn yn briod ac wedi cartrefu yn Sweden a Ffrancon y mab ieuengaf, ar ôl graddio gydag anrhydedd dosbarth cyntaf yng Ngholeg y Brifysgol, aberystwyth, yn ôl yn y Coleg Ger y LLi yn darlithio yn yr adran Hanes.

Cafodd athroniaeth Alexander ddylanwad mawr ar Mr. a Mrs. Lewis, yn gymaint felly nes iddynt ei wneud yn sail i'w dull o ddysgu. "She didn't merely teach music" medde ei phriod "she taught them to handle life better". Yn syml, mae Alexander yn dadlau fod yna ddau ddull o ymateb — yr ymateb sydyn, digymell sy'n dod yn ail-natur i berson a'r ymateb pwyllog sy'n dod ar ol rheoli eich hunan a meddwl am eiliad cyn gweithredu. Gall person hyfforddi ei hunan i'r fath raddau, yn ôl Alexander, fel nad yw'n codi o'i gadair i ateb caniad y ffôn heb feddwl yn fwriadol am yr hyn mae'n ei wneud. Ymateb naturiol plentyn wrth eistedd ar sedd y piano ac edrych ar y miwsig o'i flaen fyddai dechrau chwarae, ffwrdd â hi ond na, "Now think" fyddai cyngor Mrs. Lewis a hynny, nid unwaith na dwywaith ond ddegau o weithiau. Does dim amheuaeth nad effeithiodd y ddysgeidiaeth hon ar ei holl fywyd. Yn ddeg a thrigain oed, cerddai yn syth fel brwynen, ei gwallt gwyn yn tonni'n ddestlus a'i philyn yn raenus ac yn ffasiynol bob amser — heneiddiodd yn hardd. Rhedai'r plant ati pan welent hi ar y stryd, roedden nhw'n falch ohoni.

Pan ddoi'r wers ola i ben fin nos â'r ddau am dro, dotiai hithau ar bethau o'i chwmpas fel pe bae'n eu gweld am y tro cyntaf "Oh! look, there's the moon" meddi hi gydag angerdd plentyn. Ymhyfrydai ym myd natur, roedd yn aelod o gymdeithas gwarchod adar ac o'i chwmpas bob amser roedd blodau, lluniau blodau a lluniau anifeiliad. Roedd popeth cain yn agos at ei chalon.

Does ryfedd iddi gael y fath lwyddiant yn ei gwaith, nid dysgu'r plant fel y cyfryw a wnai hi ond eu harwain. Doedd hi byth yn eu gwthio nag yn hawlio mwy nag oedd o fewn eu cyrraedd naturiol. "She believed" medde ei phriod "in giving children their beingness, she never ordered them around". Mewn llawer ystyr roedd hi'n debyg iawn i blentyn ei hunan, roedd ganddi gymaint o egni â nhw bob gafael, byddai'n adrodd hanesion bach difyr ac yn gwrando yr un mor barod ar eu straeon hwythau. Roedd derbyn anrheg fach yn rhoi pleser di-ben-draw iddi, yn enwedig pan fyddai'r rhodd yn rhywbeth o wneuthuriad chwaethus, artistig. Dangosai ei llawenydd yn fwrlwn a gosodai'r anrheg mewn lle o anrhydedd ar y piano.

Bu'n gymar eithriadol o ofalus o'i gwr ac yn fam annwyl irfeddi i'w phlant. Meddyliai'n barhaus am ei mab a'i merch-yng-nghyfraith yn Sweden, y wraig ifanc wedi ei pharlysu a hithau'n poeni am na fedrai hi roi help llaw iddi. "How can I help her from a distance?" oedd ei chwestiwn yn aml a dyna lle bydde hi'n dechrau gwau pilyn i'w anfon iddi er ei holl brysurdeb. Siaradai'n Annwyl â'i gwr bob amser er hyd yn oed pan dorrai ef ar draws ei gwersi i ofyn am ei help i wisgo'i got ag yntau'n diodde'n enbydd gan "athritis". "Oh you naughty man" dwrdiai'n chwareus gan roi winc ar y plentyn wrth y piano, I'r awyrgylch honno o gwrteisi a lledneisrwydd yr âi'r plant yn wythnosol — do, fe ddysgo nhw fwy nag am werth crosiet a chwafer!

Ar wahan i roi dros drigain o wersi yn gyson, hi fyddai'n glanhau'r tŷ, siopa, paratoi bwyd a gwneud yr holl drefniadau a'r cyfrifon ynglŷn â disgyblion y ddau ohonyn nhw.

Ychydig o gyfathrach fydden ni, rieni yn ei gael â hi ond gwethfawrogem ei dylanwad da ar y plant, gallai synhwyro eu gofidiau, gwrandawai'n amyneddgar ar eu problemau, tystiai Mr. Lewis ei bod hi wedi helpu aml i blentyn anhapus i wynebu problemau yn y cartref neu yn yr ysgol. Chododd hi moi'i llais erioed ond fe wyddai'r plant pan nad oedd eu gwaith yn ei phlesio, aent ati wedyn fel lladd nadredd i ymarfer, doedden nhw ddim am ei siomi eilwaith. Bydd, fe fydd bwlch mawr ar ôl Mrs. Lewis; mae athrawon da yn brin, mae gwŷr a gwragedd bonheddig yn brinnach.

D.R.E.

# GWOBRAU'R EISTEDDFOD

**Mae pawb ohonoch yn gwybod erbyn hyn, rwy'n siŵr, y bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Gaerdydd yn 1978. Mae'r llu pwyllgorau wrthi'n ddyfal ers amser a'u prif waith ar hyn o bryd yw paratoi'r rhestr testunau a bydd hon yn mynd o flaen Cyngor yr Eisteddfod ganol Chwefror.**

**Fel gyda phopeth arall, diwedd yn gân yw'r geiniog yn hanes yr Eisteddfod. Mae pob pwyllgor sy'n gyfrifol am destunau yn gorfod casglu'r gwobrau ar gyfer pob cystadleuaeth a mynegwyd y farn y gallai unigolion hoffi rhoi gwobrau mewn rhai adrannau i gofio am rywrai, neu fel ewyllys da. Os carai rhai gynnig gwobr, gellwch gysylltu â'r Trefnydd yn Swyddfa'r Eisteddfod neu ag ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith yn Caerdydd 756282.**

## ARLUNYDD GRAFFIG

Mae ein Cwmnïau argraffu a chyhoeddi bychain yn prysur ehangu, ac yr ydym yn chwilio am arlunydd graffig i ymgymryd ag amrywiaeth o waith dylunio a gwaith gosod allan. Fe fyddwn yn argraffu popeth, o lythyr-benawdau i lyfrau a chylchgronau.

Y mae'r gallu i weithio heb arolygiaeth, ac i gyflawni gwaith o fewn terfynau amser penodedig yn hanfodol. Ni fydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â phrofiad ymarferol eang, ond rhaid iddo/iddi wrth wybodaeth ddamcaniaethol drylwyr yn y maes.

Gellir gweithio o Gaerdydd neu o Aberdâr.

**GRŴP AP DAFYDD, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isaf, Caerdydd CF1 8LW. Ffôn : 396262.**

# Daw'r Pâs i Bawb

**Nos Sul, Ionawr 16 ymwelodd y feiolinydd ifanc disglair o Korea, Kyung-Wha Chung â Chaerdydd i roi cyngerdd o gerddoriaeth Ffrengig yn y Theatr Newydd gyda Cherddorfa Gymreig y BBC.**

Ar ôl yr agorawd *Beatrice et Benedict* gan Berlioz, daeth Kyung-Wha Chung ymlaen i berfformio *Poeme* i feiolin a cherddorfa gan Chausson — darn a berfformiwyd gyntaf gan y virtuoso enwog Ysaÿe yn 1896.

Dangosodd yr unawdydd ar unwaith nid yn unig ei meistrolaeth dechnegol ar yr offeryn ond hefyd ei dawn fel artist. Rhaid i bob nodyn ganu, i ddod o'r galon, ebe Arthur Rubinstein, y pianydd, ar raglen deledu yn ddiweddar. Mae cymaint o 'artistiaid' yn gwneud techneg yn feistr ac yn anghofio enaid y gerddoriaeth ond gyda Kyung-Wha Chung mae pob nodyn nid yn unig yn gywir, ond hefyd yn canu gyda thôn bendigedig — er ei bod hi'n anodd iddi ganolbwyntio ar ei pherfformiad y noson honno efo'r holl sŵn pesychu yn y gynulleidfa. Chlywais i erioed y fath sŵn mewn cyngerdd, yn union fe pe bai cystadleuaeth yn cael ei chynnal am besychwr mwyaf swnllyd y noson — a hynny yn enwedig yn narnau mwyaf tawel y gerddoriaeth. Ymddygiad gwarthus.

Yn yr ail hanner cafwyd dau ddarn virtuoso gan Seint-Saens: *Havanaise* op. 83 a'r *Introduction et Rondo Capriccioso* op. 28 — dau ddarn oedd yn dangos eto feistrolaeth dechnegol anhygoel yr unawdydd.

Rhaid rhoi canmoliaeth uchel iawn i'r arweinydd gwâdd, Charles Dutoit. Llwyddodd i gael y gorau allan o'r gerddorfa drwy arwain cywir a sensitif, ac roedd ef a'r unawdydd yn deall ei gilydd i'r dim. Yn *Le Tombeau de Couperin*, darn i gerddorfa gan Ravel, ceir un o'r rhannau mwyaf anodd i obo — ac mae'r prif oböydd yn haeddu canmoliaeth uchel am ei chwarae bendigedig. (Mae'n siwr na arhosiff hon yn y BBC Welsh am hir!)

Gorffennwyd y gyngerdd gyda *La Mer* Debussy. Mae angen cerddorfa fawr ar gyfer y darn hwn ac wrth gwrs, cafwyd chwareuwyr ychwanegol i mewn. Ond eto, er bod ychydig o chwareuwyr ychwanegol yn yr adrannau llinynnol, teimlwn nad oedd digon o linynnau i gyd-bwyso'r



*KYUNG-WHA CHUNG*

adrannau eraill (mae angen tua deg desg o feiolinau ac ati). Fodd bynnag, medrodd Dutoit, a oedd yn arwain heb sgôr, drosglwyddo ei frwdfrydedd ei hun i'r gerddorfa a chafwyd perfformiad rhagorol.

(D.S. Ar gyfer y cyngerdd nesaf, cyhoeddodd Cyngor y Celfyddydau y rhoddid paced o *Fisherman's Friend* neu ffisig peswch yn rhad ac am ddim i bob aelod o'r gynulleidfa gyda'u rhaglenni cyn dechrau.)

B.M.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD,
Y BARRI A'R FRO

NOS SUL, CHWEFROR 13 AM 8.00P.M.

**CYFARFOD TEYRNGED I**

**JOHN GWILYM JONES**

NOS SUL, MAWRTH 6 AM 8.00P.M.

**GWEITHIAU EBEN FARDD**

**gyda Guto Roberts a**
**Meredydd Evans**

THEATR SHERMAN, CAERDYDD

*Tocynnau oddi wrth MERFYN GRIFFITHS*
*Tel: Pentyrch 890702*

## Meini Gwagedd

*Wedi meithiant pawb oedd ynglŷn a'r peth i ddod o hyd i Feini'r Orsedd yn nyfnderoedd Afon Taf (mae'r contractwyr gwreiddiol a aeth â hwy yno wedi anghofio ble yn union y taflwyd y meini gwerthfawr!), mae son yn awr am gloddio'r meini bychain a saif y tu allan i'r Amgueddfa o'u safle, a'u symud i gyffiniau maes yr Eisteddfod '78 (ble bynnag fydd hynny). Nawr, mae pawb sydd wedi gorfod symud tŷ yn gwybod sut mae pethau'n gallu mynd ar goll yn y symud — does ond gobeithio na chollir y lot yma eto cyn 1978! Heb feini, go fain fyddai hi ar yr Archdderwydd!*

## Cynhyrchiad Gwych!

Tipyn o syndod oedd ymddangosiad Evan Matthew (sydd hefyd yn ateb i'r enw Iolo!) ychydig cyn ei bryd yn Ysbyty Dewi Sant, fore Sadwrn, Ionawr 22ain. Drwy lwc roedd Branwen (Iorwerth) a Richard, ei gŵr, yn weddol barod amdano! Dymuniadau gorau iddynt hwy ill dau, a chroeso cynnes i'n darllenwr bychan diweddaraf.

Fe fydd Branwen yn adnabyddus i Gymry Caerdydd yn rhinwedd ei swydd fel rheolwr Theatr Sherman, Caerdydd. Ymadawodd â'r swydd honno ym mis Tachwedd ac eisoes gwelodd pawb sy'n ymwneud â threfnu achlysuron Cymraeg yn y Sherman golled fawr ar ei hôl. Bu Branwen yn gweithio i Theatr Caricature a Chwmni Theatr Cymru cyn dod i'r Sherman ym 1972; cyn hynny, cafodd yrfa lwyddiannus fel actores ar lwyfannau Cymru a Llundain.

Yn awr, dyma hi'n paratoi i chwarae rhan newydd. Fel y dywedodd un llythyr oddi wrth ffrind iddi yn y theatr: "Llongyfarchiadau — y cynhyrchiad gorau eto!"

CYRHAEDDWCH

78,500

O DDARLLENWYR

**Ffoniwch i gael ein**
**telerau hysbysebu**
**CAERDYDD 396262**

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*